

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th




DARLLENWCH
Jona 1: 1-9

Stori 1 Jona yn y Llong

Roedd Jona yn gwasanaethu'r Arglwydd Dduw drwy gyhoeddi negeseuon Duw i'r bobl.

C Defnyddiwch yr wyddor luniau i ganfod beth yw'r enw ar y swydd hon yn y Beibl.



3



ADNOD ALLWEDDOL
Jona 1: 3

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.


Un tro, daeth gair Duw at Jona. Dywedodd Duw wrtho am fynd i ddinas fawr o'r enw Ninefe. Yno, roedd i rybuddio'r bobl ddrwg fod Duw yn mynd i'w cosbi, oherwydd roedd Ef wedi gweld eu pechodau.

C Wrth bwy y siaradodd Duw?
I ble'r anfonodd Duw ef?

J _ _ a
N _ _ _ _ e

4

Er hynny, bu Jona yn anufudd i orchymyn Duw, a phenderfynodd redeg i ffwrdd i Darsis. (Efallai mai'r rheswm dros hyn oedd bod trigolion Ninefe yn elynion i'w bobl ef a bod Jona'n teimlo eu bod yn haeddu cael eu cosbi.) Aeth i lawr i Jopa, wrth ymyl y môr, a thalodd am gael hwylio ar long i Darsis.



C Rhowch y rhif cywir ym mhob un o'r blychau isod.


1 Ninefe

2 Tarsis

3 Jopa

Bu Jona yn anufudd i Dduw oherwydd rhedodd i ffwrdd yn lle mynd i .

Talodd i hwyllo ar long o i .




Wedi iddo fynd ar ffwrdd y llong, aeth Jona i orwedd a syrthiodd i drwmgwsg. Tra'r oedd yn cysgu, anfonodd Duw storm fawr. Roedd y llong yn cael ei hyrddio gymaint gan y storm nes bod y morwyr yn meddwl y byddai'n suddo a hwythau'n boddi!

Yna, daeth y capten at Jona a'i

ddeffro a gorchynnodd iddo alw ar ei Dduw.

Teimlai'r holl forwyr yn sicr mai bai Jona oedd y storm a gofynnion nhw nifer o gwestiynau iddo:- "Beth yw dy waith?", "O ble'r wyt ti'n dod?", "Beth wyt ti wedi'i wneud?"

C Ysgrifennwch un o'r cwestiynau a ofynnodd y morwyr i Jona.



Dywedodd Jona wrthyn nhw mai Hebrëwr oedd. Dywedodd ei fod yn addoli Duw'r Nefoedd, yr Un a greodd y môr, a bod y storm wedi codi oherwydd iddo fod yn anufudd i Dduw!

C Llanwch y llythrennau sydd ar goll.

H _ _ _ _ _ r oedd Jona. Roedd e'n addoli Duw'r N _ _ _ _ _ dd.
Roedd Jona wedi bod yn a _ _ _ _ _ dd i Dduw

Yn yr un ffordd ag y gwelodd Duw y pethau drwg a wnaeth pobl Ninefe a Jona, felly hefyd mae Ef yn gwybod y cyfan am ein pechodau ninnau hefyd!
Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud yr hyn mae Duw am i ni ei wneud.

**DARLENWCH**

Jona 1: 10 -17
a 2: 1-10


**ADNOD
ALLWEDDOL**

Jona 2: 9

Gofynnwch am
help i chwilio
am yr adnod hon.

Stori 2 Jona yn y Môr

Wrth i'r storm waethygu, gofynnodd y morwyr i Jona beth ddylen nhw ei wneud ag e, er mwyn i'r môr ymdawelu. "Cydiwch ynof a'm taflu i'r môr," atebodd. Ond gorchmynnodd y capten y dylai'r morwyr geisio rhwyfo'n ôl i'r tir mawr.

**C Ticiwch yr ateb roddodd Jona i gwestiwn y morwyr.**

“Rhwyfych fi nôl i'r tir.”

“Taflwch fi i'r môr.”


“Dewiswch fi'n gaptan arnoch.”

O'r diwedd, doedd ganddyn nhw ddim dewis, dim ond gwneud fel y gorchmynnodd Jona. Ar ôl gweddio ar Dduw Jona, dyma nhw'n cydio yn Jona ac yn ei daflu i'r môr. Gostegodd y storm ar unwaith ac ymdawelodd y môr. Roedd gwyrrth wedi digwydd!

C Lliwiwch yr hanner cylch sydd wrth ymyl ail ran gywir y frawddeg.

Yn gyntaf, dyma'r morwyr yn gweddio ar Dduw Jona. yn cydio yn Jona.

Gostegodd y storm y diwrnod wedyn. ar unwaith.



Ble'r oedd Jona? Yn y môr, yn suddo'n ddyfnach ac yn ddyfnach! Ond roedd Duw wedi trefnu i bysgodyn mawr lyncu Jona. Bu Jona ym mol y pysgodyn am dri diwrnod a thair noson!

C Rhowch linell drwy'r rhifau anghywir.

Bu Jona yn y pysgodyn am 30 3 13 diwrnod a 3 13 23 noson.

4

Allwch chi ddychmygu sut brofiad oedd bod ym mol y pysgodyn anferth? Roedd hi'n dywyll, yn wlyb ac yn ddrewllyd iawn! Roedd Jona yno yn gweddio ar yr Arglwydd! Dyna beth da yw ein bod yn gallu siarad â Duw mewn unrhyw le ac ar unrhyw bryd!

C Llanwch y llythrennau sydd ar goll.

Rydym ni'n gallu g _____ o ar Dd _____ mewn unrhyw l _____ ac ar unrhyw b _____, yn union fel y gwnaeth J _____ !

5

Roedd Jona yn diolch i Dduw am achub ei fywyd! Roedd e'n cofio profiad mor erchyll oedd boddi, a'r gwymon wedi clymu'n dynn am ei gorff, ac yntau'n teimlo mor bell oddi wrth Dduw! Bryd hynny, roedd e wedi galw ar yr Arglwydd, ac roedd Ef wedi ei glywed ac wedi ei achub!

“Yn wir,” meddai Jona,

**“I'r Arglwydd y
perthyn
gwaredu.”**

Lliwch y llythrennau.




farw drosom ar y groes ar Galfaria. Ydych chi wedi diolch i Dduw am Ei lachawdwriaeth – Ei ffordd Ef i'n hachub ni?

Yna, cafodd Jona syndod arall. Siaradodd Duw â'r pysgodyn a dyma hwnnw'n chwydu Jona'n ddiogel ac yn iach ar dir sych!

Cosbwyd Jona gan Dduw am ei fod yn anufudd Iddo, ond roedd Duw hefyd wedi paratoi ffordd i'w achub, pan oedd Jona yn teimlo'n wirioneddol flin am ei ddrygioni. Rydym ni hefyd yn haeddu cael ein cosbi am ein drygioni. Ond

bydd Duw yn maddau i ni, os ydym ni'n wir edifar (yn dweud “sori”) am ein pechodau, oherwydd bu'r Arglwydd lesu



5



DARLENWCH
Jona 3: 1-10



**ADNOD
ALLWEDDOL**
Jona 3: 5

*Gofynnwch am
help i chwilio
am yr adnod hon.*


Stori 3 Jona yn pregethu yn Ninefe

Prin fod Jona wedi dod dros ei brofiad erchyll, pan siaradodd Duw ag ef am yr ail waith ynglŷn â mynd i Ninefe.

Y tro hwn, ufuddhaodd Jona! Cyn hir, gallai weld y ddinas fawr o'i flaen. Roedd mor enfawr fel y byddai'n cymryd tri diwrnod iddo gerdded drwyddi.


C Ysgrifennwch yr atebion i'r canlynol
ar y Grid Geiriau.

1. Siaradodd Duw â Jona yr ___ ___ ___ waith.
2. Beth wnaeth Jona y tro hwn.
3. Aeth Jona i'r lle hwn.
4. Byddai'n cymryd ___ ___ ___ diwrnod i gerdded drwy'r ddinas.



8

Wrth i Jona gerdded drwy'r ddinas, dechreuodd bregethu neges Duw, "Cyn pen deugain (pedwar deg) niwrnod, bydd Ninefe yn cael ei dinistrio!" Gwrandawodd pobl ddrwg y ddinas ar neges y dieithryn. Roedden nhw'n sylweddoli mor ddrwg oedden nhw a dyma nhw'n credu yn Nuw.






C Rhowch **GWIR** neu **ANWIR**
ar ôl y rhain:-

Byddai Ninefe yn cael ei dinistrio mewn tri deg diwrnod.

Credodd pobl Ninefe yn Nuw.

4

C Cwblhewch y jig-so drwy ysgrifennu'r geiriau yn y darnau cywir, er mwyn dweud beth wnaeth brenin Ninefe pan glywodd neges yr Arglwydd.




Gwnaeth y brenin hyn i ddangos ei fod yn wirioneddol flin am ei bechodau. Yna, mynnodd fod neges bwysig yn cael ei hanfon at bawb! Doedd neb i fwyta nac yfed! Yn hytrach, roedden nhw i alw'n daer ar Dduw a throi oddi wrth eu ffyrdd drygionus, yn y gobaith na fyddai Ef yn eu cosbi.

Yna, gwelodd **Duw** eu bod wedi
troi o'u ffyrdd
drygionus.

Lliwiwch y geiriau.

Penderfynodd Duw beidio â'u cosbi. Dyna beth rhyfeddol! Cafodd Jona yn gyntaf, ac yna dinas gyfan, faddeuant a chyfle arall am eu bod yn edifar am eu drygioni ac am iddyn nhw droi oddi wrth eu pechodau. Mae Duw yn dal yn raslon ac yn faddeugar heddiw.

Os byddwn ninnau, fel trigolion Ninefe, yn troi'n ôl at Dduw ac yn credu Ei neges, yna bydd Ef yn ein hachub.



4

4



DARLLENWCH
Jona 4: 1-11




**ADNOD
ALLWEDDOL**
Matthew 12: 41


*Gofynnwch am
help i chwilio
am yr adnod hon.*

Stori 4 Jona yn gweddio ar Dduw

Doedd Jona ddim yn rhy hapus fod Duw wedi penderfynu peidio cosbi dinas Ninefe. Yn wir, roedd e'n ddig iawn wrth Dduw a dywedodd hynny Wrtho! Dywedodd wrth Dduw mai dyma'r hyn fyddai'n digwydd yn ei dyb ef. Yna, ychwanegodd, "Gwyddwn Dy fod yn Dduw graslon a thrugarog ac yn llawn caredigrwydd."



C Llanwch y bylchau gyda'r llythrennau a, o, u, w ac y



4

Teimlai Jona, efallai, na ddylen nhw fod wedi cael cyfle arall.

Wrth i Jona eistedd y tu allan i'r ddinas, gwnaeth gaban iddo'i hun rhag yr haul. Trefnodd yr Arglwydd i blanhigyn dyfu dros nos i roi mwy o gysgod iddo. Roedd Jona'n ddiolchgar iawn am hyn. Ond y noson wedyn, bu'r planhigyn farw, oherwydd roedd Duw wedi trefnu i bryfyn fwyta'r planhigyn. Drannoeth, wrth i'r haul godi, parodd Duw fod gwynt poeth o'r dwyrain yn chwythu ar Jona.

Teimlai hwnnw fel pe bai ar lewygu a gofynnodd am gael marw!

C Tanlinellwch y gair cywir yn y cromfachau.

Trefnodd Duw i (blanhigyn / coeden) dyfu.

Y noson wedyn, paratôdd Duw aderyn / bryfyn / neidr).

Parodd Duw fod gwynt o'r gogledd / de / dwyrain / gorllewin) yn chwythu.

6

Roedd Jona yn ddig unwaith eto - am fod y planhigyn wedi marw y tro hwn. Siaradodd Duw ag ef gan ddweud wrtho Ei fod Ef, yn union fel roedd Jona yn teimlo dros y planhigyn a fu farw, wedi tosturio wrth bobl Ninefe. Roedden nhw'n llawer mwy gwerthfawr na phlanhigyn, yn arbennig gan fod 120,000 ohonyn nhw'n blant ifanc.

C Llanwch y grid geiriau.


1. Roedd Duw wedi

_____ wrthyn nhw.


2. _____ laddodd y planhigyn.

3. Roedden nhw'n ifanc.

4. Roedd Jona yn _____.



8



Dysgodd Jona wers bwysig y diwrnod hwnnw. Mae Duw yn caru pobl yn fawr, pa mor ddrwg bynnag ydyn nhw. Mae Ef yn barod bob tro i faddau i'r rhai sy'n wirioneddol edifar, yn hytrach na'u cosbi.

Flynyddoedd lawer yn ddiweddarach, soniodd yr Arglwydd Iesu am Jona. Dywedodd y byddai Ef yn cael Ei gladdu am dri diwrnod a thair

noson, yn union fel y bu Jona ym mol y pysgodyn. Daeth hyn yn wir, oherwydd ar ôl i Iesu gael Ei gladdu, cododd o farw'n fyw dri diwrnod yn ddiweddarach! Heddiw, mae Ei neges yn dal yn neges o gariad a maddeuant, i bawb sy'n credu Ynddo ef. Dyma ddywedodd yr Arglwydd Iesu ei Hun, yn yr Adnod Allweddol.

“Yr ydych chi'n gweld yma

beth mwy na
Jona.”

Lliwiwch y geiriau o Mathew 12: 41

2

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynnyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120